# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**2009 mccc 1**

## RHAN 4

### AMRYWIOL AC ATODOL

**46 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn a grybwyllir yn is-adran (2), cânt wneud darpariaeth drwy reoliadau, at ddibenion penodedig deddfiad, ynghylch yr amgylchiadau—

(a) pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried—

(i) yn un y mae addysg yn cael ei darparu ar ei gyfer mewn ysgol;

(ii) yn ddisgybl ofrestredig ysgol neu riant cofrestredig disgybl o'r fath;

(iii) yn un sydd mewn ysgol;

(iv) yn un sy'n mynychu ysgol neu'n bresennol ynddi;

(v) yn un sy'n cael addysg mewn ysgol;

(vi) yn un sy'n astudio, neu'n bwriadu astudio, mewn ysgol;

(vii) yn un sy'n cael ei dderbyn i ysgol neu y gwrthodwyd ei dderbyn i ysgol;

(viii) yn un sy'n gwneud cais i gael ei dderbyn i ysgol, yn cynnig derbyn person i ysgol, yn derbyn neu'n gwrthod derbyn cais person i gael ei dderbyn i ysgol neu'n penderfynu derbyniadau i ysgol;

(ix) yn un sydd wedi penderfynu ym mha ysgol y darperir addysg i blentyn;

(x) yn un y caniateir codi taliadau ar ei gyfer ynghylch cael ei dderbyn i ysgol a gynhelir.

(b) pan fo, neu pan na fo, trefniadau ar gyfer darparu addysg ar ran ysgol i'w hystyried yn drefniadau derbyn;

(c) pan fo, neu pan na fo, trefniadau ar gyfer galluogi mynegi dymuniadau ynghylch ym mha ysgol y mae'r person sy'n mynegi'r dymuniad yn dymuno y darperir addysg ar ei gyfer ei hun neu ar gyfer person arall yn gymwys;

(d) pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried—

(i) yn un sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn sefydliad yn y sector addysg bellach;
(ii) yn un sy'n mynychu'r sefydliad hwnnw, neu'n bresennol ynddo;
(iii) yn fyfyriwr y sefydliad hwnnw, neu'n fyfyriwr sydd ynddo;
(iv) yn un sy'n astudio, neu'n bwriadu astudio, yn y sefydliad hwnnw;
(v) yn un sy'n gwneud cais i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw, yn cynnig derbyn person i'r sefydliad hwnnw, yn derbyn neu'n gwrthod derbyn cais person i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw, yn dethol person i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw neu'n penderfynu derbyniadau i'r sefydliad hwnnw;
(vi) mewn perthynas â'r sefydliad hwnnw, yn berson anabl.

(2) Y farn yw bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol, yn ddymunol neu'n hwylus mewn cysylltiad â gweithredu'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21) gan Rannau 1 a 2 o'r Mesur hwn.

(3) Mae'r dibenion y caniateir eu pennu o dan is-adran (1) yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwneud rheoliadau neu orchymyn o dan ddeddfiad.

(4) Yn yr adran hon mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad—
(a) sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur hwn; neu
(b) sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf Seneddol neu un o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gaiff ei basio ar ôl pasio'r Mesur hwn.

## 47 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

## 48 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchymyn o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer o'r fath yn cynnwys pŵer—
(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol;
(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;
(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol neu'r cyfryw ddarpariaeth arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 49 Cychwyn

(1) Daw adrannau 46, 48, 50 a'r adran hon i rym ar ddiwedd cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn i rym ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn ei bennu drwy orchymyn. Caniateir i ddiwrnodau gwahanol gael eu pennu at ddibenion gwahanol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 50 Enw byr

Enw'r Mesur hwn yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.